# Y CABINET DYDD MAWRTH, 16 GORFFENNAF 2024

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Elin Walker Jones, Paul Rowlinson a Menna Trenholme.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Eitem 6: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd), Heledd Fflur Jones (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio) a Miriam Williams (Swyddog Cyfreithiol yr Adran Gynllunio).
Eitem 7: Ian Jones (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) a Delyth Gadlys Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb).
Eitem 8: Daron Marged Owens (Uwch Swyddog Gweithredu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Nia Jeffreys a Craig ab Iago.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2024 fel rhai cywir.

## 6. CYFARWYDDYD ERTHYGL 4 - CANLYNIAD Y CYFNOD YMGYSYLLTU CYHOEDDUS A'R PENDERFYNIAD I GADARNHAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

1. Ystyriwyd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod ymgysylltu cyhoeddus a chadarnhawyd y Cyfarwyddyd Erthygl 4 dyddiedig 1 Medi 2024 sydd ddim yn dod i rym yn uniongyrchol (Atodiad 2 o'r adroddiad) ar gyfer y defnyddiau canlynol, yn unol a'r Rhybudd Cyhoeddus:
   a. Newid defnydd o C3 (prif gartref) i C5 (ail gartref) neu C6 (llety tymor byr) a defnyddiau cymysg penodol
   b. Newid defnydd o C5 (ail gartref) i C6 (llety tymor byr) a defnyddiau cymysg penodol
   c. Newid defnydd o C6 (llety tymor byr) i C5 (ail gartref) a defnyddiau cymysg penodol

2. Hysbysu'r sawl a effeithir yn unol â gofynion y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y diwygiwyd) ac awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i amodi'r penderfyniad ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4.

3. Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud addasiadau golygyddol i'r rhybudd cyhoeddus cyn ei gyhoeddi.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd ar rai o effeithiau argyfwng tai presennol yng Ngwynedd megis bod dros 2000 o geisiadau am dai cymdeithasol. Nodwyd bod hyn yn cyfateb i oddeutu 4,500 o unigolion. Ymhelaethwyd bod dros 800 o deuluoedd wedi cofrestru gyda Tai Teg er mwyn prynu tai fforddiadwy ac oddeutu 300 o deuluoedd mewn llety argyfwng ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd bod o gwmpas 100 o bobl yn cyflwyno eu hunain fel unigolion digartref pob mis.

Esboniwyd bod oddeutu 65% o drigolion Gwynedd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai yn eu cymunedau gan bwysleisio bod rhai cymunedau ble mae dros 90% allan o gyrraedd pobl leol. Pwysleisiwyd bod Cyngor Gwynedd yn gweithredu nifer o brosiectau er mwyn mynd i'r afael a'r argyfwng tai. Cyfeiriwyd at y Cynllun Gweithredu Tai a phremiwm ail gartrefi a thai gwag.

Cadarnhawyd bod dros 7,000 o dai haf a lletyau gwyliau yn y sir gan nodi bod hyn gyfwerth â 12% o holl stoc dai ac ystyriwyd bod rheoleiddio newidiadau drwy'r drefn cynllunio yn arf ddefnyddiol i'r Cyngor. Cyfeiriwyd at nifer o adroddiadau a gwybodaeth gan sefydliadau cenedlaethol a'r Dr Simon Brookes i gefnogi'r ystyriaeth hon.

Pwysleisiwyd mai effaith cymeradwyo'r argymhellion byddai gosod yr angen i unrhyw dŷ sydd yn brif gartref dderbyn caniatâd cynllunio er mwyn newid defnydd i fod yn ail gartref neu lety gwyliau dros dro. Nodwyd hefyd byddai angen caniatâd cynllunio i drosi ail gartref yn llety gwyliau (neu drosi llety gwyliau yn ail gartref). Cadarnhawyd ni fyddai angen derbyn caniatâd cynllunio er mwyn trosi ail gartref neu lety gwyliau yn brif gartref. Tynnwyd sylw byddai'r rheoliadau hyn yn berthnasol i dai yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig ac nid yw'n effeithio tai o fewn Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

Nodwyd bod yr Adroddiad wedi cael ei graffu gan Bwyllgor Craffu Cymunedau y Cyngor yn ddiweddar a chyfeiriwyd at eu sylwadau a'u hargymhellion o fewn y ddogfen.

Cyfeiriwyd at y broses o gyflwyno'r cyfarwyddyd gan nodi bod nifer o gamau eisoes wedi eu cwblhau. Eglurwyd mai'r cam cyntaf oedd penderfynu gosod rhybudd cyhoeddus o'r bwriad i gyflwyno Erthygl 4. Cyfeiriwyd at y papur cyfiawnhad i gyflwyno'r cyfarwyddyd gan dynnu sylw at y ffaith y byddai'n effeithio ardal Cynllunio Gwynedd Gyfan yn hytrach nag ardaloedd penodedig, yn dilyn ystyriaeth fanwl. Pwysleisiwyd nad oedd yr opsiynau hyn wedi cael eu gweithredu oherwydd y risg o gynnydd mewn niferoedd ail dai a lletyau gwyliau yn y cymunedau tu hwnt i'r ardaloedd penodedig hynny. Cyfiawnhawyd mai'r dull mwyaf effeithiol o daclo'r argyfwng tai a diwallu anghenion pobl leol oedd cyflwyno'r Cyfarwyddyd i'r ardal cynllunio gyfan fel y cyflwynwyd yn yr adroddiad.

Aethpwyd ymlaen nodi mai'r ail gam oedd cynnal cyfnod ymgysylltu cyhoeddus a chadarnhawyd bod bron iawn i 4,000 o ymatebion i'r ymgysylltu hwn. Tynnwyd sylw at trydydd cam y broses sef dadansoddi'r ymatebion. Eglurwyd bod yr ymatebion a dderbyniwyd yn y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus wedi derbyn ystyriaeth lawn ac wedi cynorthwyo swyddogion i lunio themâu er mwyn ymateb i sylwadau.

Manylwyd ar nifer o'r themâu a ddatblygwyd yn sgil ymatebion cadarnhaol a negyddol gan gyfeirio at yr isod;

- **Thema 7 (Ymyrryd a rhyddid, hawliau dynol ac yn annemocrataidd ac anghyfreithlon)** – Ystyriwyd nad yw'n deg nodi bod cyflwyno'r Cyfarwyddyd yn fater annemocrataidd yn sgil y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus a gynhaliwyd am gyfnod o chwe wythnos. Ymhellach, cadarnhawyd bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn cyd-fynd â chyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yn o gystal ag ystyriaethau budd cyhoeddus yn cael eu gwarchod. Ystyriwyd byddai gweithredu'r Cyfarwyddyd yn diwallu'r argyfwng tai gan warchod hawliau dynol unigolion ymhellach. Pwysleisiwyd hefyd na fyddai'r Cyfarwyddyd yn atal datblygiad, ond yn hytrach yn ychwanegu'r gofyniad am ganiatâd cynllunio fel ddisgrifiwyd uchod. Sicrhawyd nad yw cyflwyno'r Cyfarwyddyd yn weithred anghyfreithiol gan bod hawl statudol wedi cael ei ddarparu i'r Cyngor er mwyn ei ganiatáu.
- **Thema 12 (Effaith negyddol ar werth eiddo)** - Cydnabuwyd bod sylwadau ynglŷn â phryder o gartrefi yn colli eu gwerth wedi codi dro ar ôl tro yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus. Credir hon oherwydd bod damcaniaeth y byddai'r Cyfarwyddyd yn rhwystro unigolion rhag gwerthu eu tai ar y farchnad agored. Sicrhawyd nad yw'r ddamcaniaeth hon yn gywir ac ni fydd unrhyw rwystr i unrhyw un sy'n dymuno gwerthu eu tai na phwy fyddai'n gymwys i brynu tai o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd. Pwysleisiwyd fod y gallu i wneud hyn yn parhau yn unol â'r trefniant presennol ond byddai'r Cyfarwyddyd yn gosod cyfyngiadau drwy gyflwyno gofyniad am gais cynllunio i'w drosi yn llety gwyliau neu ail gartref. Ymhelaethwyd nad yw'r Cyfarwyddyd yn ymyrryd ar feddiannaeth tai. Cadarnhawyd bod swyddogion wedi ymchwilio i ardaloedd eraill sydd gyda'r cyfyngiadau hyn mewn lle eisoes, gan gadarnhau nad ydi'r ardaloedd hynny, megis Caeredin, wedi profi lleihad mewn gwerth tai yn dilyn cyflwyno'r Cyfarwyddyd.
- **Thema 3 (Datrysiad anghywir i'r argyfwng tai)** - Esboniwyd bod nifer o ymatebion yn awgrymu byddai adeiladu mwy o dai yn ddull mwy effeithiol o ddatrys yr argyfwng tai. Nodwyd bod y Cyngor eisoes yn gweithredu i adeiladu tai newydd drwy Gynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu'n dda ar hyn o bryd.
- **Thema 9 (Etifeddiaeth)** – Tynnwyd sylw bod nifer o ymatebion yn pryderu am leihad mewn etifeddiaeth a phryder am etifeddu. Pwysleisiwyd ni fydd y

Cyfarwyddyd yn effeithio ar faterion etifeddiaeth oni bai bod y perchnogion newydd yn dymuno newid defnydd yr adeilad drwy gyflwyno cais cynllunio.

- **Thema 24 (Effeithio ar a chyfyngu'r farchnad dai)** - Amlygwyd pryder ymysg ymatebion bod y Cyfarwyddyd yn creu dau bremiwm i dai mewn egwyddor drwy godi premiwm ar ail gartrefi yn o gystal â'r angen am ganiatâd cynllunio. Nodwyd mai nod y Cyfarwyddyd yw sicrhau bod defnydd tŷ preswyl yn cael ei farchnata i'r perwyl hynny ac ni fydd ffioedd yn cael eu codi yn dilyn cyflwyno'r Cyfarwyddyd nes bydd cais yn cael ei wneud er mwyn trosi prif gartref yn ail dy neu lety gwyliau.
- **Thema 11 (Morgeisi)** – Pwysleisiwyd bod swyddogion wedi cwblhau gwaith ychwanegol er mwyn ymchwilio i mewn i'r pryderon byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cymhlethu neu'n sail i atal ceisiadau am forgeisi. Eglurwyd bod swyddogion wedi cyfarfod gyda UK Finance er mwyn trafod pryderon ond eglurwyd nad oedd unrhyw sail tystiolaethol gadarn i'r honiadau. Ymhellach, cadarnhawyd bod swyddogion wedi cynnal trafodaethau ychwanegol gyda darparwyr morgeisi lleol ond nid oedd tystiolaeth i gefnogi pryderon. Soniwyd hefyd bod swyddogion wedi cysylltu gyda deg awdurdod lleol yn Lloegr, sy'n defnyddio trefniant cyffelyb ond nid oedd unrhyw ymateb a dderbyniwyd yn awgrymu byddai cyflwyno'r Cyfarwyddyd yn amharu ar forgeisi yn yr ardal. Nodwyd hefyd nad oedd trafodaethau gyda Cyngor Dinas Caeredin na Chyngor St Ives wedi arwain at unrhyw dystiolaeth i awgrymu heriau morgeisi.
- **Thema 16 (Dim yn gwarchod yr iaith Gymraeg)** – Sicrhawyd bod effaith ar yr iaith wedi bod yn allweddol i holl drefniadau ac ystyriaethau'r broses. Nodwyd y gwelir hyn yn y Papur Cyfiawnhad gyda manylion pellach yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

Tynnwyd sylw at brif amcan cyflwyno'r Cyfarwyddyd set gwarchod y stoc dai a cymunedau'r sir. Gobeithiwyd bydd cyflwyno'r Cyfarwyddyd yn arwain at gyfleon i bobl fyw yn lleol yn eu cymunedau gan greu poblogaeth sefydlog i wasanaethu gwasanaethau'r ardal. Credwyd bod yr amcan hon i'w weld drwy'r holl themâu eraill a ddatblygwyd o ymatebion y cyfnod ymgysylltu, Asesiad Effaith Integredig a'r Papur Cyfiawnhad.

Nodwyd mai derbyn yr argymhellion bydd cam olaf y broses a byddai'r Cyfarwyddyd yn dod yn weithredol ar draws ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd. Soniwyd bod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn ystyried cyflwyno'r Cyfarwyddyd o fewn ei ardal Awdurdod Cynllunio ond pwysleisiwyd mai penderfyniad iddyn nhw bydd ei weithredu neu beidio.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ymchwilio sylweddol ac ymatebion trwyadl trwy gydol y broses ac wrth baratoi'r adroddiad hwn.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-24, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

` Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2023-24, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 gan nodi cynnwys yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd bod yr adroddiad blynyddol hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn 5 amcan cydraddoldeb fel nodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb 2020/24 y Cyngor. Ymhelaethwyd mai dyma'r adroddiad blynyddol olaf ar y cynllun ac felly darparwyd gwybodaeth perthnasol i gyfnod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn ogystal â nodi sut bydd amcanion cydraddoldeb yn cael eu gweithredu i'r dyfodol.

Mynegwyd balchder bod y mwyafrif o'r pwyntiau gweithredu a nodwyd o fewn y pum amcan cydraddoldeb wedi cael eu cwblhau o fewn cyfnod y cynllun er gwaethaf addasu amserlenni yn sgil y pandemig. Cydnabuwyd bod nifer o'r amcanion cydraddoldeb a phwyntiau gweithredu yn rhai sydd angen ystyriaeth hir dymor ac maent yn amcanion ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb 2024-28 sydd eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet. Pwysleisiwyd bod unrhyw waith nad oedd wedi cael ei gyflawni yn ystod cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 wedi cael eu cynnwys ymysg amcanion y cynllun cyfredol.

Tynnwyd sylw at hyfforddiant i Aelodau ar eu cyfrifoldeb dros gydraddoldeb sydd ar gael o fewn y Cyngor gan gadarnhau bod nifer o sesiynau bellach wedi cael eu cynnal. Er hyn, cydnabuwyd nad yw pob aelod wedi eu mynychu ac felly cyfeiriwyd at recordiad o'r sesiwn sydd ar gael er mwyn i'r Aelodau Etholedig ei wylio. Pwysleisiwyd bod sylw parhaus yn cael ei roi ar niferoedd yr Aelodau sydd wedi mynychu'r hyfforddiant hwn gan ei fod yn elfen graidd o'r cynllun hyfforddiant. Sicrhawyd bod swyddogion wedi cysylltu gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol er mwyn annog eu haelodau i fynychu'r hyfforddiant.

**8. GDMC CAERNARFON, PWLLHELI A CRICIETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

a) Cymeradwywyd cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) newydd ar gyfer Caernarfon, Pwllheli a Cricieth am gyfnod o dair blynedd, yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodwyd gyda'r adroddiad.

b) Awdurdodwyd Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i ymgymryd â chyflwyno'r Gorchymyn Arfaethedig yng Nghaernarfon, Pwllheli a Cricieth.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd yr aelodau mai Awdurdodau Lleol yn unig sydd â'r hawl i gyflwyno Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn ardal yn unol â deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014. Ymhelaethwyd mai pwrpas GDMC yw ymdrin â niwsans neu broblem benodol mewn ardaloedd penodol.

Adroddwyd bod swyddogion wedi derbyn tystiolaeth sylweddol sy'n adlewyrchu graddfa ac effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd yng Nghaernarfon, Pwllheli

a Chricieth yn dilyn caniatâd y Cabinet yn Rhagfyr 2023 i gymeradwyo proses o ystyried cyflwyno GDMC.. Yn dilyn ystyriaeth o'r dystiolaeth angenrheidiol, bodlonwyd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd hyn yn cyrraedd meini prawf i gyfiawnhau gosod gorchymyn diogelwch o'r newydd. Amlygwyd hyn gan ei fod yr ymddygiad yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl y cymunedau arfaethedig yn barhaus yn ogystal â bod yn afresymol ei natur.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn ymgasglu canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar gyflwyno GDMC newydd mewn ardaloedd yng Ngwynedd a gynhaliwyd ar 26ain o Chwefror am gyfnod o chwe wythnos. Nodwyd bod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, a'r gwaith o ystyried cyflwyno GDMC yn deillio o nifer o geisiadau gan yr Heddlu, Cynghorau Tref ac Aelodau Lleol am ymyrraeth. Cadarnhawyd i'r ymgynghoriad hwn gael ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol, y wasg a drwy gydweithio a'r Cynghorau Tref. Nodwyd yr oedd modd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar lein neu ar bapur yn ogystal â chysylltu yn uniongyrchol gyda swyddogion i ddarparu sylwadau. Adroddwyd bod 112 o ymatebion cyflawn wedi cael ei gyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad.

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac nodwyd bod y Cynghorau Tref perthnasol, Aelodau Lleol a'r heddlu yn datgan cefnogaeth barhaus i gyflwyno GDMC yn yr ardaloedd arfaethedig yng Nghaernarfon, Pwllheli a Chricieth fel gyflwynwyd yn Atodiad 2 o'r Adroddiad. Cydnabuwyd bod yr ardaloedd arfaethedig wedi cael ei lunio er mwyn bod yn ymarferol i'w blismona a gorfodi'r gorchymyn tra'n ymateb i gyn gymaint o ymatebion yr ymgynghoriad â phosib.

Cyflwynwyd manylion y GDMC newydd sydd yn gwahardd ymddygiad sydd yn achosi aflonyddwch neu fraw, yfed alcohol ar ôl cais i stopio a loetran mewn cyflwr o feddwdod. Pwysleisiwyd mai dim ond pan fydd pobl sy'n yfed alcohol yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol y bydd swyddogion yn gorfodi'r gwaharddiad hwn. Cadarnhawyd nad yw'n drosedd i yfed alcohol mewn ardal GDMC ond ei bod yn drosedd i fethu â chydymffurfio â chais i roi'r gyfer neu ildio alcohol.

Adroddwyd ar fanylion yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb gan gydnabod bod ystod eang o sylwadau wedi eu darparu i bryderon am effaith posib ar anfantais economaidd. Credir byddai cyflwyno GDMC yn cael effaith bositif ar yr ardaloedd gan y byddai'n eu gwneud yn lleoliadau mwy pleserus a llai bygythiol yn ogystal â chreu ymdeimlad o falchder yn y gymuned. Fodd bynnag, cydnabuwyd yr angen i ystyried effaith negyddol posibl gan y byddai'n cyfyngu mynediad i ardaloedd a lleihau cyfleoedd i gymdeithasu yn ogystal â chael effaith anghyfartal ar bobl â phroblemau iechyd meddwl neu sy'n camddefnyddio sylweddau. Pwysleisiwyd bod swyddogion wedi bod mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Cydraddoldeb er mwyn sicrhau nad oes annhegwch. Cadarnhawyd yr ystyrir byddai cyflwyno gorchymyn yn lleihau anghyfartaledd yn gyffredinol gan eu bod yn gwneud yr ardaloedd arfaethedig yn saffach i bawb.

Cadarnhawyd bod GDMC yn rhan o weithdrefn ehangach i warchod cymunedau a diolchwyd i'r holl bartneriaid sy'n cydweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i warchod ardaloedd, cymunedau a thrigolion.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:40pm

---

**CADEIRYDD**